




Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Amser i ailffocysu?

Adolygiad o ddyrannu tai rhent cymdeithasol yng
Nghymru yng nghyd-destun Covid-19
by Joy Kent and Elin Brock





1. Beth sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad hwn?

Yng Nghymru mae miloedd yn fwy o bobl sydd eisiau tai rhent cymdeithasol na'r tai sydd ar gael ac oni bai y byddwn yn cynyddu'r cyflenwad yn sylweddol, mae'r sefyllfa hon yn annhebygol o newid.

O fewn y cyd-destun hwn, wrth benderfynu i bwy y dylid dyrannu cartref cymdeithasol mae'n rhaid i ddarparwyr tai gydbwyso amrywiaeth o faterion sydd weithiau yn cystadlu â'i gilydd: atal a thaclo digartrefedd, rhoi dewis, gwneud y defnydd gorau o gartrefi a hybu cynnal tenantiaethau.

Mae llawer o'r materion y mae pobl sy'n gyfrifol am ddyrannu tai cymdeithasol yn eu hwynebu'n rhai sydd wedi bodoli ers tro byd, ac nid yw'n syndod bod hyn yn bennaf o fewn fframwaith a ffurfiwyd gan ddeddfwriaeth a pholisïau tai. Ac eto nid yn unig y mae'r cyd-destun gwneud penderfyniadau'n gymhleth ond mae hefyd yn gofyn am ymateb i faterion y tu hwnt i gyrhaeddiad deddfwriaeth tai. Mae'r camau a gymerwyd yn sgil y llifogydd a'r pandemig Coronafeirws (Covid-19) a'r cyfyngiadau symud dilynol yn ystod 2020 wedi dangos sut y gall y sector tai ymateb o dan amgylchiadau eithriadol.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r dulliau dyrannu tai cymdeithasol gwahanol a ddatblygwyd yng Nghymru. Cyflawnwyd yr ymchwil sy'n sail iddo yn sgil y llifogydd helaeth ym mis Chwefror a chyn i'r pandemig Covid-19 effeithio ar gyflwyno amrywiaeth o wasanaethau tai - gan gynnwys sut y dyrennir tai cymdeithasol ac i bwy. Rydym yn annog y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddysgu o dryblith 2020 a gwerthuso i ba raddau y mae'r system y gwnaethom ei defnyddio i roi cartref i dros 10,000 o bobl y llynedd yn gweithio. Gofynnwn beth allai gael ei wella er mwyn i ni, fel sector, fod wedi'n paratoi'n well ar gyfer dyfodol ansicr.

Mae wedi'i rannu i dair adran:

- mae'r cyntaf yn bwrw golwg ar yr hyn sydd ar waith ar hyn o bryd,
- mae'r ail yn disgrifio'r problemau gyda'r sefyllfa bresennol yr ydym wedi'u nodi trwy ein hymchwil ac
- mae'r adran derfynol yn awgrymu sut y gallem siapio polisïau ac arferion dyraniadau tai er mwyn gweddu'n well i anghenion y boblogaeth yn yr hinsawdd newydd hon

Termau a thalfyriadau

Tai/cartrefi cymdeithasol: cartrefi a rentir sydd wedi'u cynnig gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, eu datblygu fel arfer gyda rhyw fath o gymhorthdal cyhoeddus a'u cynnig am rent islaw cyfraddau'r farchnad.

Cynllun dyrannu: Y ffordd y mae awdurdod lleol yn pennu blaenoriaeth a'r gweithdrefnau y byddant yn eu dilyn wrth ddyrannu tai rhent cymdeithasol, yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad perthnasol.

Cofrestr tai cyffredin: rhestr aros tai ar y cyd a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac unrhyw gymdeithasau tai partner.

Polisi dyraniadau cyffredin: polisi ar y cyd sy'n disgrifio'r meini prawf a'r broses ar gyfer cyrchu tai'r awdurdod lleol a chymdeithasau tai partner.

Angen/statws blaenoriaethol: grwpiau o bobl yr ystyrir bod ganddynt flaenoriaeth uwch i dderbyn cartref o fewn deddfwriaeth Cymru.

Ffafiaeth resymol: y gofyniad yn y ddeddfwriaeth sy'n nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf am gartref.

System fandiau: dull o flaenoriaethu ceisiadau am gartrefi trwy fandiau sydd â meini prawf penodol.



System seiliedig ar bwytiau: dull o flaenoriaethu ceisiadau am gartrefi trwy ddyfarnu pwyntiau ar gyfer amgylchiadau/meini prawf penodol.

Gosodiadau seiliedig ar ddewis: dull gosodiadau sy'n mynnu bod pobl yn gwneud cynnig am gartrefi y mae ganddynt ddi-ddordeb ynddynt. Mae hyn wedi'i gyfuno fel arfer â system seiliedig ar bwytiau neu fandiau i flaenoriaethu ceisiadau.

Asesiad o'r angen am dai: Proses a gyflawnir gan awdurdod lleol i asesu beth yw anghenion yr ardal o ran tai nawr ac yn y dyfodol.

Grant Tai Cymdeithasol: Y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru sy'n cymorthdalu adeiladu tai rhent cymdeithasol

Cydweithfa tai neu dai cydweithredol: Uned tai sy'n eiddo i, ac wedi'i rheoli ar y cyd gan grŵp o unigolion sydd â chyfranddaliadau, aelodaeth, a/neu hawliau deiliadaeth cyfartal i'r tai.

Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol: Mae ymddiriedolaethau tir cymunedol (YTC) yn cael eu sefydlu a'u rhedeg gan bobl lleol i ddatblygu a rheoli cartrefi a gweithredu fel stiwardiaid tai hir dymor.

SRhP - sector rhentu preifat

ALI - awdurdod lleol

CT - cymdeithas tai

LIC - Llywodraeth Cymru

Graddfa'r her 2018/19:

- 60,000 o bobl wedi'u cofrestru ar restrï aros ALI
 - darparwyd cartrefi i 12,863 o aelwydydd
 - aeth 30% o'r dyraniadau i aelwydydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref
 - 4,000 o gartrefi gwag ar draws stoc yr ALI a'r CT
- Ffynonellau:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Affordable-Housing/Provision/additionalaffordablehousingprovision-by-provider-housingtype>

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Social-Housing-Vacancies/vacancies-by-area-availability-duration>

Beth wnaethom ni?

Aethom ati gyda'r gwaith hwn trwy:

- adolygu gwefannau'r holl awdurdodau lleol (ALI) i ddeall pa brosesau dyrannu a ddefnyddir ar draws Cymru a sut brofiad y byddai rhywun sy'n cysylltu ag ALI trwy eu gwefan yn ei gael.
- cysylltu â'r holl ALI i wirio ein dealltwriaeth a gofyn cwestiynau generig a phenodol ar sail yr hyn yr oeddem wedi'i ddarllen. Gwnaethom wahodd nhw i gyfrannu ymhellach at yr ymchwil hefyd.
- ymgysylltu â phobl yr oeddent wedi ceisio cyrchu tai cymdeithasol trwy ALI, CT a sefydliadau partner er mwyn deall eu profiadau a'u safbwyntiau.
- gwahodd mewnbwn gan weithwyr tai proffesiynol trwy gyfryngau cymdeithasol.
- ymgysylltu â sefydliadau partner o'r sector CT, y sectorau digartrefedd/cefnogaeth a sefydliadau sy'n gweithio ym maes datblygu polisi i ddeall eu profiadau a'u safbwyntiau.
- ystyried gwaith ymchwil a pholisi arall yn y maes hwn y tybiom y gallent gyfeirio ein casgliadau ac argymhellion.





2. Sut mae'r system yn gweithio ar hyn o bryd?

Mae diffinio'r angen am dai a digartrefedd yn rhan ganolog o bolisïau a deddfwriaeth dyrannu tai ac mae cytuno ar ddiffiniadau wedi mynd yn gynyddol gymhleth ac aneglur.

Yn ystod y cyfyngiadau Covid-19, mae'r ffordd y mae landlordiaid cymdeithasol yn dyrannu cartref wedi newid, ond o dan amgylchiadau arferol mae dyrannu tai cymdeithasol yn gamp gymhleth a heriol o gydbwysu. Wrth ddatblygu cynlluniau dyrannu, mae pob Awdurdod Lleol yn penderfynu, gan ddibynnu ar amodau tai lleol, sut y maent yn gweithredu eu swyddogaethau o dan Ddeddf Tai 1996, Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 a hefyd yn rhoi sylw dyledus i'r Côt perthnasol ac arfer da.

Mae Côt Arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (Mawrth 2016) yn cydnabod y gamp hon o gydbwysu sy'n rhan annatod o brosesau dyrannu rhwng:

- anghenion a dymuniadau ymgeiswyr;
- llesiant tenantiaid presennol;
- y gymuned yn gyffredinol;
- a'r angen am wneud y defnydd gorau o adnodd a gyllidir yn gyhoeddus i ddiwallu anghenion tai, yn enwedig i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf pan nad yw perchenfeddiannaeth neu lety a rentir yn breifat yn hygyrch nac yn gynaliadwy.

O'n hadolygiad o wefannau a'r cyfweiliadau dilynol gyda staff ALL sy'n gweithredu polisïau dyrannu, mae'n glir bod y dulliau a fabwysiedir yn ceisio cyflawni ystod o amcanion gan gynnwys:

- gweithredu'n unol â pholisi a deddfwriaeth tai;
- bod yn deg ac yn dryloyw;
- darparu dewis;
- gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai;

- creu cymunedau cymysg, cynaliadwy;
- diwallu anghenion tai pobl o dan amgylchiadau gwahanol;
- atal digartrefedd ac ymateb iddo, a sefydlu tenantiaethau cynaliadwy.

Dangosodd ein hadolygiad o'r cynlluniau dyrannu sy'n weithredol ar hyn o bryd fod amrywiaeth o ddulliau wedi cael eu datblygu i gwrdd â'r cyd-destun deddfwriaethol hwn ac ymdrin ag anghenion tai lleol. Ar draws Cymru:

- Mae 19 ALL yn defnyddio cofrestri tai cyffredin (CTC), ac o'r rhain:
 - o mae 18 yn defnyddio systemau bandiau i ddyrannu ac mae 1 yn defnyddio system seiliedig ar bwyntiau;
 - o mae 7 yn cyfuno'r system bandiau cyffredin gyda defnyddio gosodiadau seiliedig ar ddewis (GSD); ac
 - o mae 3 yn rhan o CTC rhanbarthol.
- Mae 3 ALL nad oes ganddynt CTC ac o'r rhain:
 - o mae 1 wedi trosglwyddo ei stoc. Mae'r sefydliad trosglwyddo'n defnyddio system bandiau a GSD. Mae'r ALL yn cynghori pobl i gysylltu'n uniongyrchol â'r CT eraill sy'n gweithredu yn yr ardal. ac
 - o Mae gan y 2 ALL arall eu stoc eu hunain ac mae gan bob landlord cymdeithasol arall sy'n gweithredu yn yr ardal eu cynlluniau eu hunain.

Pan nad yw CT yn rhan o CTC neu gynllun, mae'r landlordiaid cymdeithasol sy'n gweithredu yn yr ardal honno'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddyrannu cartrefi.

Caniataodd yr holl gynlluniau a adolygwyd ar gyfer y prosiect hwn ddyraniadau y tu hwnt i'r dull a ddefnyddir yn gyffredinol o dan



amgylchiadau penodol a gyda chydysyniad y partneriaid. Mae hyn yn cynnwys:

- Polisiâu gosodiadau lleol mewn cymunedau gwledig
- Mae diwallu anghenion pobl o dan amgylchiadau penodol neu gyda gofynion penodol, e.e. pobl hŷn, anghenion cefnogi, tai wedi'u haddasu
- Gosodiadau lleol tymor byr ar gyfer datblygiadau newydd i gefnogi sefydlu cymuned newydd.

Beth ddywedodd pobl sy'n rheoli dyraniadau wrthym?

Wrth geisio deall sut mae ALL yn ymdopi fel arfer â chydbwysio nifer o flaenoriaethau, bu'n bwysig i ni siarad â'r bobl hynny sy'n gyfrifol am reoli nhw. O'r 11 ALL a atebodd ein harolwg, roeddent i gyd yn cydnabod manteision ac anfanteision y cynllun yr oeddent yn ei ddefnyddio.

Cofrestr Tai Cyffredin

Awgrymodd yr atebion fod cael cofrestr tai cyffredin (CTC) yn darparu amrywiaeth o fuddion ar gyfer y rhai y mae angen cartrefi arnynt, cyflwyniad yr ALL o'i rôl strategol ac i landlordiaid cymdeithasol fel ei gilydd.

- I'r darpar denant, mae un broses ymgeisio a phwynt cyswllt yn golygu mwy o dryloywder a bod llywio trwy'r system yn cymryd llai o amser.
- I'r ALL mae'n golygu y gall fodloni eu swyddogaeth strategol o ran cywain data, deall eu cyd-destun lleol a bodloni rhwymedigaethau statudol eraill.
- I landlordiaid cymdeithasol, teimlwyd ei fod yn cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at waith partneriaeth effeithiol a mwyafu dull cydweithredol o gyflawni nodau a rennir.

Pan fydd cofrestr tai cyffredin mewn lle, mae angen i bartneriaid fedru cydweithio'n rhagweithiol ac yn effeithiol i gyflawni amcanion ar y cyd. Er bod heriau'n bodoli, dywedodd staff ALL wrthym fod gweithio gyda CTC yn hybu perthnasoedd a chydweithio gwell â'u CT partner.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda iawn ac mae ein landlordiaid partner yn cymryd rhan i raddau helaeth wrth gyflwyno'r gofrestr gyffredin. Mae gennym gytundeb gyda'n partneriaid y byddant yn hysbysebu eu heiddo trwy'r Gofrestr Tai Cyffredin ac mae'r rhain yn cael eu hysbysebu'n unol â'n polisi cyffredin. Ar wahân i'r cytundeb trosglwyddo stoc, mae gennym gynllun gosodiadau cytunedig gyda'n holl bartneriaid LCC sy'n helpu pennu dyraniadau i grwpiau blaenoriaethol (gan alluogi'r Cyngor i weithredu ei ddyletswyddau i aelwydydd sydd mewn angen o ran tai).

Mae tair ardal ALL yng Nghymru nad oes ganddynt gofrestr tai cyffredin. Rydym yn deall bod o leiaf un o'r rhain yn adolygu hyn. Er nad oes unrhyw system sy'n berffaith a bod rhesymau pam y byddai partneriaid ALL a CT efallai eisiau diogelu'r hyblygrwydd a ddarperir gan eu cynllun eu hunain, mae'n anodd gweld sut mae'r pryderon hyn yn drech na'r buddion a grynhoir uchod - yn enwedig y pwysau ychwanegol ar bobl sydd angen cartref y mae'n rhaid iddynt ddelio â nifer o landlordiaid cymdeithasol ar yr un pryd.

Gosodiadau Seiliedig ar Ddewis

Roedd y partneriaid hynny sydd wedi mabwysiadu dull gosodiadau seiliedig ar ddewis (GSD) yn gadarnhaol ynglŷn â'i effaith ar bobl sy'n chwilio am gartrefi, landlordiaid cymdeithasol a pherthnasoedd â phartneriaid. Roeddent yn ymwybodol o rai heriau, yn enwedig wrth weinyddu'r system, ond teimlwyd y gallai'r rhain gael eu lliniaru trwy ddiweddarau systemau TG a chyflwyniad digidol. Dywedwyd wrthym:

'Ar ôl i ni fabwysiadu GSD, gwelsom incwm cynyddol ar unwaith a bod eiddo'n cael ei



osod yn gyflymach.'

'Mae gosodiadau seiliedig ar ddewis yn parhau fel ein system dyrannu tai cymdeithasol gan i ni deimlo bod hyn yn hybu dewis yn well, yn helpu ni i gynyddu diddordeb mewn eiddo'n lleol ac mewn ardaloedd lle mae'r galw yn is, yn gostwng gwastraff yn y system/o amser swyddogion a'i fod yn fwy agored a thryloyw er mwyn hysbysu ymgeiswyr yn well am argaeledd y cartrefi sydd ar gael a'r galw uchel amdanynt.'

Nododd rhai atebwyr broblemau gyda GSD a dyma eu hymatebion:

'Oherwydd materion cyflenwad, rydym yn cyfyngu ar nifer y cynigion y gall cwsmeriaid eu gwneud'

'weithiau mae pobl yn cael eu drysu gan yr hysbysebion - dydyn nhw ddim yn deall nhw'

'pan adolygom yr hyn yr oeddem yn ei wneud sylweddolom yr oeddem yn meddwl bod pobl yn gwybod bod rhaid iddynt wneud cynnig ond gyda llawer nid oedd hyn yn wir. Rydym yn edrych ar sut y gallwn wella'r broses - a'i gwneud yn fwy personol i'r bobl sydd angen hynny.'

Amlygodd eraill yr heriau yr oeddent yn teimlo eu bod yn bodoli yn eu defnydd o GSD mewn perthynas ag ymateb i aelwydydd a dderbynnir fel digartref. Mewn nifer o achosion defnyddir awto-gynnig, yr ystyrir ei fod yn gadarnhaol o ran ehangu opsiynau ond mynegwyd pryderon hefyd ei fod yn cyfyngu ar ddewis. Amlygodd rhai eraill bod anfanteision i gael dau grŵp o bobl i bob pwrpas yr ymatebir iddynt yn wahanol - y rhai sy'n cael eu derbyn yn ddigartref ac eraill sydd mewn angen o ran tai:

'Mae'n annog pobl i fynd yn ddigartref/cael eu cartrefu mewn llety dros dro i dderbyn y band Aur / Aur Plws.'

'Mae'r bandio'n blaenoriaethu'r angen uchaf o ran tai (h.y. digartrefedd mewn llety dros dro) ond oherwydd y diffyg tai fforddiadwy (gan gynnwys tai cymdeithasol) rydym yn cael

trafferth wrth gynnig eiddo i ymgeiswyr eraill mewn bandiau is y mae ganddynt anghenion tai o hyd.'

Safbwynt y swyddogion sy'n rhedeg y cynlluniau oedd bod systemau bandiau'n haws i bobl eu deall na systemau seiliedig ar bwyntiau ac yn symlach i'w gweithredu.

Gwaith partneriaeth

Yr hyn sy'n ganolog i lwyddiant CTC yw perthynas gadarnhaol rhwng ALL a phartneriaid tai. Roedd gan gyfranogwyr brofiad o amser pan fu gan bartneriaid flaenoriaethau sy'n gwrthdaro yr oedd angen iddynt weithio trwyddynt:

'Rydym yn dechrau gweld ymddygiad gwahanol ymysg rhai o'n partneriaid LCC o ran lefel y rheolaeth y maent ei heisiau dros ddyraniadau ac enwebiadau, ac adlewyrchwyd hyn yn eu parodrwydd i gydweithredu ar ddigartrefedd. Mae cwpl o'n partneriaid mewn cymdeithasau tai'n cydweithio'n rhagweithiol â ni ond mae adegau pan fyddwn yn wynebu diffyg cyfathrebu a chydweithredu a 'rhyfeloedd tiriogaeth' dros wneud penderfyniadau o ran rheoli a dyrannu.'

Mewn ardaloedd lle ceir prinder tai cymdeithasol difrifol, gall hyn fod yn ddiwylliant heriol iawn i weithio oddi mewn iddo. Ymdriniodd un enghraifft a godwyd gan awdurdod gwledig â'r anhawster yr oeddent yn ei wynebu wrth adnabod llety dros dro yn y sector tai cymdeithasol mewn ardaloedd lle bu gwerth eiddo a phrinder llety sector rhentu preifat yn golygu bod diwallu anghenion aelwydydd digartref yn arbennig o anodd:

'Mewn ardaloedd gwledig, mae angen i ni gadw mewn cof a pharchu'r ffaith bod gan lawer o bobl gysylltiadau agos â'u cymunedau. Yn ein sir, mae'n rhaid i ymgeiswyr digartref yn rhan ddeheuol y sir deithio 40 milltir i'r opsiwn llety dros dro agosaf. Mae'n amlwg nad yw hyn yn opsiwn dichonol i rywun os oes ganddynt blant yn yr ysgol leol, teulu neu system gefnogaeth yn



lleol neu ddiffyg opsiynau cludiant. Rydym mewn sefyllfa anodd o orfod cydbwysio argaeledd, costau a galw, ac mae arnom angen opsiynau hyblyg gan ein partneriaid i sicrhau bod ganddynt fodolau sy'n cefnogi pobl i aros yn eu cymunedau ac sydd ar yr un pryd yn gost-effeithiol ac yn adlewyrchu pwysau lleol.'

Dull rhanbarthol

Un enghraifft o waith partneriaeth cadarnhaol yw Un Llwybr Mynediad At Dai/Llwybr Mynediad Sengl i Dai (SARTH), sy'n gynllun unigol ar draws 3 ALL yng ngogledd Cymru. Ystyrir mai buddion y dull hwn yw ei fod yn:

- haws, tecach, cyson ac yn gliriach ar gyfer pobl sy'n chwilio am lety;
- galluogi'r ALL sy'n rhan ohono i gael dealltwriaeth well o'r angen ar draws y rhanbarth; a'i fod yn
- haws i'r holl bartneriaid ei weithredu, gan annog gwaith partneriaeth cryfach.

Digartrefedd a'r angen am dai

Dyma faes ble mae ymateb i Covid-19 wedi cael effaith enfawr. Nododd ein dadansoddiad nad yw'r cynlluniau a ddefnyddir gan o leiaf 7 ALL yng Nghymru'n rhoi ymgeiswyr digartref neu'r rhai sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd yn y band blaenoriaeth uchaf o dan amgylchiadau arferol. Mewn rhai achosion, nododd ALL eu bod wedi creu band ar wahân ar gyfer ymgeiswyr digartref a bod cwotâu wedi'u dyrannu i bob band i sicrhau y diwallir eu hanghenion.

Er bod y dull hwn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddiwallu amrywiaeth o anghenion pobl, mae arweiniad Llywodraeth Cymru'n nodi'n glir na ddylai cwotâu ymyrryd â rhoi blaenoriaeth ychwanegol i bobl sydd ag angen brys am gartref.

Dyweddodd staff ALL sy'n defnyddio cwotâu wrthym eu bod yn monitro defnydd a bod rhai yn gyrru diweddariadau misol i

ddarparwyr i sicrhau eu bod yn bodloni eu rhwymedigaethau cwota. Nododd ALL y gall hyn fod yn ddryslyd iawn i ddarpar denantiaid pan ddwedir wrthynt eu bod 'ar dop y rhestr' ond nad ydynt wedi cael cartref oherwydd terfyn cwota. Parodd hwn i ni gwestiynu ai anghenion y system neu'r dinesydd sy'n symbylu sut mae cartrefi'n cael eu dyrannu, a theflir ffocws manylach byth ar hyn yng ngoleuni'r ymateb i Covid-19.

Dyweddodd un cyfranogwr ALL wrthym fod y 'penderfyniad i roi ymgeiswyr ym Mand 2 yn cael ei wneud gan aelod lleol yn hytrach nag ar lefel swyddog'. Rhoddodd hyn flaenoriaeth is i bobl ddigartref na rhai eraill o fewn y cynllun - er enghraifft, y rhai sydd â chysylltiad lleol yr asesir bod ganddynt angen meddygol brys, pobl gyda chefnidir yn y Lluoedd Arfog neu'r rhai sy'n tanfeddiannu eu cartref cymdeithasol presennol. Eto, mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw'r meini prawf bandio a dyrannu'n cefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf am gartref.

Dyweddodd ALL mewn ardal wledig wrthym ei fod yn wynebu heriau enfawr wrth roi cartrefi i ymgeiswyr digartref a oedd yn aros am 1078 o ddiwrnodau o'r dyddiad y gwnaethant gwblhau eu cais i ddechrau eu tenantiaeth er gwaethaf dyletswydd yr ALL i roi cartref iddynt. Esboniodd yr ALL fod prinder difrifol o gartrefi 1 ystafell wely ar draws y sir. Mae'n anochel bod hyn yn codi cwestiynau am effeithiolrwydd defnyddio gwybodaeth ynglŷn â'r galw am gartrefi fel arweiniad i ba fathau o dai cymdeithasol a fforddiadwy a adeiledir. Yng ngoleuni'r cyd-destun presennol, gallai fod yn ddefnyddiol cael gwybod sut mae ALL wedi newid eu harferion a pha un a ydynt wedi llwyddo i roi cartrefi i bobl ddigartref yn gyflymach ai beidio.

Beth yw'r effaith ar bobl sy'n ceisio dod o hyd i gartrefi cymdeithasol??

Nododd ein hymchwil fod yn rhaid i bobl sy'n cysylltu ag ALL i'w helpu sicrhau llety ymdopi â systemau gwahanol iawn gan



ddibynnu ar ble y maent yn chwilio ac am beth y maent yn chwilio. Hyd yn oed pan fydd cynlluniau dyrannu tebyg mewn lle mae'n bosib y byddant yn cael profiadau gwahanol o ganlyniad i sut mae'r cynllun yn cael ei weithredu.

Er enghraifft, mae rhai cynlluniau'n rhoi terfyn ar bwy all gofrestru tra bod rhai eraill yn annog ceisiadau gan bawb. Mae rhai yn ceisio personoli'r gwasanaeth ac isafu'r gwaith papur cychwynnol tra bod rhai eraill yn mynnu bod darpar denant yn llenwi cais ysgrifenedig manwl.

Gwybodaeth ar Wefannau

Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar wefannau'n amrywio o'r rhai sydd ac arddull ac iaith sector cyhoeddus eithaf traddodiadol gyda dogfennau polisi a gweithdrefn manwl i rai eraill sy'n darparu gwybodaeth eithaf cyfyngedig wedi'i chyflwyno mewn iaith glir. Pan ddarperir manylder, mae mwy o wybodaeth a allai ei wneud yn haws i rywun ddeall eu tebygolrwydd o fedru dod o hyd i gartref trwy'r llwybr hwn. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau pan fydd yr iaith gyfreithiol a thechnegol yn debygol o fod yn rhwystr. Pan fydd llai o fanylder, mae'n bosib ei fod i'w gweld yn haws ei defnyddio ond nid yw'n glir bob amser beth yw'r tebygolrwydd o ddod o hyd i gartref, p'un a ydych yn cael eich trin yn deg ai beidio, neu sut y gallech holi'r asiantaeth os ydych yn anfodlon ar y gwasanaeth a dderbynir.

Mae rhai ALL wedi ceisio helpu pobl trwy eu gwefannau i ddeall y tebygolrwydd o ddod o hyd i fath penodol o lety ac/neu mewn lleoliad penodol trwy gynnwys gwybodaeth neu feddalwedd. Nid yw rhai eraill yn darparu unrhyw wybodaeth a fyddai'n helpu darpar ymgeisydd i wneud penderfyniad gwybodus cyn cyflwyno cais.

Mae llawer o wefannau'n darparu gwybodaeth am amrywiaeth o opsiynau y mae tai cymdeithasol yn un ohonynt ymhlith eraill gan gynnwys y sector rhentu

preifat, perchnogaeth cost isel ar gartref, cydweithfeydd tai, mentrau prynwyr tro cyntaf, ymddiriedolaethau tir, rhenti canolradd etc. Er nad yw'n glir bob amser pa mor realistig neu hygyrch y mae'r opsiynau hyn mewn gwirionedd, mae'n ddiddorol nodi bod ystod o opsiynau'n cael eu cyflwyno sy'n codi'r cwestiwn p'un a allai fod cwmpas yn y dyfodol i ddatblygu'r opsiynau hyn ymhellach er mwyn cynnig datrysiadau gwahanol i bobl mewn amgylchiadau gwahanol a gostwng y galw am dai cymdeithasol.

Mae'n gyffredin hefyd i wefannau gael eu strwythuro fel eu bod yn cyfeirio pobl at yr wybodaeth briodol gan ddibynnu ar lefel eu hangen am gartref, ac yn benodol p'un a ydynt yn debygol o gael eu derbyn fel digartref gan yr ALL ai beidio. Er bod hyn yn gwneud synnwyr ar gyfer y sefydliad a'i fod yn ddealladwy oherwydd y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi, byddem yn codi cwestiwn ynglŷn â pha mor glir y byddai hyn i rywun nad yw'n gyfarwydd ag iaith tai neu ddeddfwriaethol.

laith

Gall iaith cymhwysra beri dryswch i ymgeiswyr. Daethom o hyd i dystiolaeth o iaith dechnegol a chymhleth a ddefnyddir i ddisgrifio cysyniadau megis dewis rhesymol, cymhwysra, bwriadoldeb, dyletswyddau a deddfwriaeth digartrefedd. Mae rhai ALL wedi cyhoeddi eu polisi dyrannu ar eu gwefannau fel yr unig ffordd i ymgeiswyr ddeall sut mae'r system yn gweithio, ac roedd llawer o'r rhain dros 30 tudalen eu hyd. Bu'n bryderus hefyd i ni nodi polisiâu dyrannu nad oeddent wedi cael eu hadolygu ers mwy na 5 mlynedd, gan godi cwestiynau am ba mor berthnasol ac addas i'r diben y maent ar hyn o bryd.

Profiad

Amlinellodd y bobl sy'n chwilio am gartrefi cymdeithasol a gyfrannodd at y prosiect hwn amrywiaeth o brofiadau gan ddibynnu ar ble yr oeddent yn chwilio, lefel eu hangen am gartref ac argaeledd y math o gartref yr oedd arnynt ei angen. Roedd ymatebwyr wedi aros rhwng 3 wythnos a 15 mlynedd i gael cartref.



Nid yw'n syndod i'r rhai y bu'n rhaid iddynt aros am amser hir i gael cynnig o gartref yr oeddent ei eisiau fynegi rhwystredigaeth ond roedd yr ymatebion yn gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â'r cyngor a chefnogaeth a ddarparwyd gan ALI a CT.

Teimlodd un ymatebwr fod y broses yn niweidiol i'w hiechyd meddwl a'i gyngor i eraill sy'n dioddef o orbryder fyddai i chwilio yn y sector rhentu preifat. Mae'r amrywiaeth o ymatebion yn amlygu'r diffyg cysondeb ar draws Cymru ac i bobl mewn amgylchiadau gwahanol:

'Mae'n dibynnu ar y bandiau ond yn fy achos i roedd yn gyflym iawn'

'Rhois fy enw i lawr ac o fewn 12 mis roeddwn yn fy fflat'

'Ar y rhestr am 3 wythnos yn unig... cyflym ac effeithlon'

'Dw i byth wedi cael problem gyda thai; beth bynnag yr oedd ei angen arnaf maen nhw wedi'i ddarparu a bod yn gefnogol'

'Ces i lot o gymorth/cefnogaeth gan bobl i fynd ar y rhestr'

'roedd y cyngor a fy nghynghorydd yn barod i helpu'

'System Dda ond rwy'n disgwyl rhai problemau...dyrannwyd eiddo wedi'i adeiladu o'r newydd i mi ym mis Gorffennaf 2019 ond rwy'n aros i symud i mewn o hyd'

'Daliwch ati i wneud cynigion, byddwch yn barod i aros'

'Arhosiad hir...does dim digon o eiddo 1 ystafell wely'

"nid yw'n addas os ydych yn dioddef o unrhyw fath o orbryder, byddwn yn awgrymu mynd yn breifat...Mae wedi gwaethygu fy ngorbryder ac mae fy mhroblemau iechyd meddwl yn llawer gwaeth trwy ddelio â'r holl straen.'





3. Ydyw'n amser ailfeddwl sut mae pobl yn cael mynediad at gartrefi?

Mae'n glir mai'r mater mwyaf i'r rhai sy'n gyfrifol am ddyrannu tai cymdeithasol yw'r diffyg cyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a'r galw a'r broses ddogni ddilynol sy'n nodweddu cynlluniau dyrannu erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn hefyd wedi amlygu cwestiynau pellach ochr yn ochr â hyn - y mae rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol yng ngoleuni'r pandemig Covid-19.

Yr angen am dai a digartrefedd - ar gyfer pwy y mae tai cymdeithasol?

Mae'r adroddiad hwn yn dangos gwahaniaethu rhwng diwallu anghenion tai brys ac ymdrin â graddau eraill o alw llai brys o ran sut mae cartrefi'n cael eu dyrannu. Mae dau lwybr pennaf o ddarparu tai i atal digartrefedd: tai cymdeithasol neu gyfeirio at y sector rhentu preifat, y mae'r ddau ohonynt yn galluogi ALL i gydbwysu eu dyletswyddau i atal digartrefedd, rhoi dewis, gwneud y defnydd gorau o stoc, gweddu i'r hyn y mae cymunedau ei eisiau a hybu cynnal tenantiaethau.

Awgryma ein hymchwil ein bod wedi creu system ddyrannu sy'n ormodol o drwsogl a dryslyd. Mae'r dehongliad presennol o ddeddfwriaeth tai wedi sefydlu dau grŵp o bobl a'u gosod yn erbyn ei gilydd - y rhai sydd â'r angen blaenoriaethol a'r rhai sydd hebdo. Rydym yn argymhell bod angen i Lywodraeth Cymru a'r Sector Tai, ochr yn ochr â chymunedau, egluro ar y cyd ar gyfer pwy y mae tai cymdeithasol. Os yw ar gyfer pawb sydd ei eisiau, mae angen rhaglen adeiladu anferth arnom, wedi'i datgysylltu o adeiladu preifat gyda chymhorthdal parhaus gan y llywodraeth i fodloni'r galw. Os yw ar gyfer pobl sydd mewn argyfwng o ran tai - a dyna beth yw e yn ystod y pandemig - mae angen i'r opsiynau tai eraill sy'n rhan llai o'r cynnig

ar hyn o bryd gael eu cynyddu a'u hehangu i fodloni amrywiaeth anghenion a dyheadau tai'r gymuned ehangach.

Byddai hyn yn helpu'r sector i gyflwyno argymhellion y Grŵp Gweithredu Digartrefedd megis y canlynol: 'dylai fod mai cynnal tenantiaethau ac ailgartrefu'n gyflym (gan gynnwys Tai yn Gyntaf pan fo'n briodol) yw'r dull diofyn o gefnogi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu gysgu allan, wedi'i weithredu trwy broses bontio ailgartrefu gyflym.¹

Gyda digartrefedd a chysgu allan cynyddol yn amlwg iawn ar ein strydoedd cyn Covid-19, nid yw'n syndod y bu LIC yn canolbwyntio'n sylweddol ar gyfraniad landlordiaid cymdeithasol at atal a thaclo digartrefedd. Ers hynny mae tywydd eithafol a Covid-19 wedi cael effaith ar yr hyn a ddisgwylir gan y sector tai yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'n debygol y bydd rôl y sector wrth ddiwallu anghenion y rhai sydd mewn argyfwng o ran tai'n mynd yn fwy o flaenoriaeth nid yn unig yn ystod yr argyfwng ond dros y tymor hwy. Heb strategaeth glir ynglŷn â phwy y darperir tai cymdeithasol ar eu cyfer, wedi'i hategu gan lefelau a mecanweithiau cyllido priodol, mae risg o gynyddu tensiwn rhwng y rhai sydd â blaenoriaeth a'r rhai sydd hebddi. A gyda'r galw cynyddol a chefnogaeth drawsbleidiol yn y Senedd am ystyried tai cymdeithasol fel hawl ddynol yng Nghymru, byddem yn awgrymu bod angen ymdrin â'r cwestiwn hanfodol hwn.

Mae'n ddigon posib mai dyma'r amser iawn i'r sector ystyried sut mae ein dull presennol yn gweddu i ysgogyddion polisi eraill Llywodraeth Cymru, megis y ffocws ar

¹<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-hydref-2019.pdf>



genedlaethau'r dyfodol. Awgryma ymchwil mai rhagfynegydd allweddol digartrefedd mewn oedolaeth yw profi tlodi a digartrefedd fel plentyn².

Mae'r sector tai wedi llwyddo i wneud cyfraniad enfawr at yr ymgyrch iechyd cyhoeddus o gadw pobl yn iach ac mewn llety diogel trwy weithio mewn partneriaeth. Mae cyfle'n bodoli ar hyn o bryd i gyflwyno'r newidiadau hyn mewn strategaeth tymor hir sy'n canolbwyntio ar ddod â digartrefedd i ben ar gyfer y genhedlaeth bresennol a'r dyfodol ar draws Cymru.

Cysondeb

Bu cysondeb o ran sut mae pobl yn cael mynediad at gartref yn thema gref a redodd drwy'r ymchwil hon, yn enwedig wrth ystyried 'Ar gyfer pwy y mae tai cymdeithasol?' ac o ganlyniad i hynny cymhwystra o fewn cynlluniau dyrannu gwahanol. Er bod angen i'r cyflenwad tai lleol adlewyrchu'r amgylchiadau lleol, ydyw'n deg bod hyn yn golygu y bydd pobl yn cael profiad gwahanol iawn gan ddibynnu ar ble y maent yn chwilio am gartref? Dull gwell fyddai un sy'n sicrhau bod y profiad a'r lefel wasanaeth a gynigir i bob unigolyn yn gymharol gyson, ni waeth pa ddarparwr tai y maent yn cysylltu â nhw.

Adnoddau

Pa ddull bynnag a fabwysiedir, mae cydbwysedd y mae'r sector yn mynd i'r afael ag ef wrth geisio hwyluso system ddyraniadau deg a thryloyw wrth ddelio â phwysau a galw digynsail am gartrefi ar yr un pryd. Mae llawer o ALL, yn enwedig pan fydd stoc wedi cael ei drosglwyddo, wedi profi diffyg adnoddau yn y swyddogaeth tai strategol. Trwy gydol ein trafodaethau, amlinellodd cyfranogwyr ALL y cyfyngiadau y maent yn eu profi o ran adnoddau. Dywedodd un wrthym fod ganddynt 3-4 wythnos o ôl-groniad o

ffurflenni cais sy'n aros am gael eu hasesu gydag amser hanner deiliad swydd yn unig wedi'i neilltuo i hyn. Cynhaliwyd sgysiau tebyg ynglŷn â'r angen am fuddsoddi mewn technolegau newydd a'r diffyg adnoddau sydd ar gael i gyflawni hyn.

Mae'r sefyllfa i'w gweld yn glir: does dim digon o adnoddau'n mynd i mewn i'r system ar hyn o bryd - os yw llywodraeth lleol a chenedlaethol yn wirioneddol o ddifri am fodloni ei rhwymedigaethau polisi tai a digartrefedd, ac er mwyn i ni fod yn barod i ddelio â phandemig neu siociau allanol eraill yn y dyfodol, yna mae angen mynd i'r afael â hyn.

Goblygiadau Covid-19

Mae'r pandemig wedi herio'r sector o ran sut a phwy y mae'n rhoi cartref iddynt ac yn eu cefnogi. Rhoddwyd y polisïau ac arferion gweithio arferol o'r neilltu i raddau helaeth yn ystod y cyfyngiadau er mwyn ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus. Cydweithiodd llywodraeth leol ac wedi'i datganoli'n agos ac yn greadigol â sefydliadau tai a digartrefedd gan ddefnyddio ystafelloedd mewn gwestai, llety myfyrwyr a hostelau i ddarparu 800 o leoedd ar gyfer pobl ddigartref, yr oedd llawer ohonynt wedi bod yn cysgu ar ein strydoedd yn flaenorol.

Mae llawer wedi cwestiynu pam y bu'n rhaid aros am bandemig er mwyn i hyn ddigwydd a'r her erbyn hyn yw sut y gellir dod o hyd i ddatrysiadau tai a chefnogaeth tymor hir ar gyfer pobl.

Mae'r rhan fwyaf o sylwebwyr economaidd a gwleidyddol yn darogan ein bod ar ddechrau dirwasgiad difrifol, ac mae risg y bydd mwy o bobl yn wynebu digartrefedd. Gyda hyn mewn cof, pa wersi all gael eu dysgu o ymateb y sector i Covid-19 y gellir eu

²https://www.feantsaresearch.org/public/user/Resources/magazine/2019/Winter/Homeless_in_Europe_Winter_2019_-_Article_8_-_Homelessness_and_childhood_adversity_Charlotte_Grey_and_Louise_Woodfine.pdf

defnyddio i ddiogelu ein systemau dyrannu ar gyfer y dyfodol. Beth ydym ni wedi'i wneud yn wahanol yn ystod y pandemig nad oeddem yn ei wneud ynghynt i symud tuag at ddileu digartrefedd?

Mae'r ymateb yn ystod y pandemig yn dangos beth gall y llywodraeth a darparwyr tai ei wneud gyda'i gilydd. Yng ngoleuni Covid-19 ac i gwrdd â'r heriau sydd o'n blaenau, a oes angen diwygio'r hyn y mae'r sector tai'n ei gynnig a sut mae pobl yn cael mynediad ato'n gyfan gwbl? Ydym ni'n gwybod beth mae pobl ei eisiau a beth y mae ei angen arnynt o ran tai yn y byd sydd ohoni yn sgil Covid-19? Mae gofod awyr agored, cysylltedd digidol a gweithle o fewn y cartref wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd bywydau aelwydydd gwahanol yn ystod y cyfyngiadau ac ar eu hiechyd a llesiant meddyliol. Cyhoeddodd ONS ddata a ddangosodd gyfatebiaeth rhwng lledaeniad Covid-19 a mesurau tlodi amrywiol, ac mae cysylltiadau pellach wedi dod i'r amlwg sy'n cysylltu tai gorlawn a mynychder Tai Amlddeiliadaeth â lledaeniad y clefyd. Mae hyn yn dangos y cysylltiad rhwng tai ac iechyd cyhoeddus yn glir, gan wneud uno iechyd a thai'n fater o frys o safbwynt polisi.

Er y bu problem gydag eiddo gwag sy'n deillio o waharddiad ar weld eiddo, ymaddasodd llawer o ddarparwyr i gynnig dyraniadau digyswllt, o lenwi ffurflenni cais i dderbyn yr allweddi, ynghyd â dulliau rhithwir o weld yr eiddo. Awgryma trafodaethau cynnar y cyflawnwyd effeithlonrwydd cynyddol gyda nifer o agweddau y gellir adeiladu arno wrth ddarparu gwasanaethau dros y tymor hwy. Gallai fod angen i barhau â busnes fel arfer yn ystod pandemig neu amgylchiadau eithafol eraill fod y drefn arferol.

Digidol - y ffordd ymlaen?

Ceir rhan o'r ateb mewn cynyddu ein defnydd o ddulliau seiliedig ar y we. Mae

gwahaniaethau sylweddol mewn mynediad ar draws Cymru ac mae angen goresgyn hwn, ond ystyriodd llawer o'r cyfranogwyr y siaradom â hwy fod gwelliant digidol eu prosesau dyrannu yn allweddol i wella rheoli dyraniadau dros y tymor hir.

Ac eto ar adeg cynnal yr ymchwil hon, dim ond 9 allan o 22 o ALL wnaeth ddarparu'r opsiwn i ymgeiswyr gwblhau eu cais am gartref ar-lein. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cynnig gwasanaeth dros y ffôn, wedi'i ddilyn gan gyfweiliad gyda'r Tîm Opsiynau Tai.

Mae'r canlynol ymysg y dulliau symud i ddigidol a rannwyd â ni:

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi cyflwyno hysbyseb ddyddiol ar-lein i sicrhau na wastreffir amser o pan y daw cartref ar gael i'w hysbysebu i ymgeiswyr. Bydd hyn yn galluogi i'r system fynd yn llawer mwy effeithlon, gan ostwng rhent a gollir o eiddo gwag trwy alluogi ymgeiswyr i gael eu hailgartrefu mor gyflym â phosib. Erbyn hyn mae'r awdurdod lleol am lansio fersiwn o'u ffurflen gais sy'n addas ar gyfer ffôn symudol / llechen i sicrhau bod y broses mor hawdd â phosib i ymgeiswyr.
- Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion wrthym fod yr holl geisiadau am dai cymdeithasol yn cael eu cwblhau ar-lein bellach ac er bod cefnogaeth yn bodoli ar gyfer ymgeiswyr sydd efallai wedi'u hallgau'n ddigidol, ni fu galw am hyn yn lleol.

Mae amcangyfrifon cyfredol yn awgrymu bod tua 94% o oedolion yn berchen ar ffôn symudol a bod tuag 86% o bobl ifanc 12-18 oed yn defnyddio ffôn symudol yn rheolaidd. Byddai hyn yn awgrymu bod manteision i fedru cyrchu'r broses ddyraniadau'n ddigidol ond byddai defnyddio ffôn symudol yn gwella gwasanaethau ac yn golygu bod darparwyr tai yn gwella'u gallu i barhau i weithredu yn ystod argyfyngau fel Covid-19.

³<https://www.statista.com/statistics/300378/mobile-phone-usage-in-the-uk/>



Monmouthshire Homesearch

Mae Cymdeithas Tai Sir Fynwy yn rheoli'r gwasanaeth Homesearch ar-lein ar gyfer ALL Sir Fynwy i ddarparu cofrestr tai cyffredin ar gyfer y 5 darparwr tai cymdeithasol sy'n gweithredu yn yr ardal. Mae'r wefan yn darparu amrywiaeth eang o wybodaeth ac yn cynnwys gwybodaeth bolisi a hysbysebion. Gyda'u partneriaid a thenantiaid, maent wrthi'n cwblhau adolygiad cyffredinol o'u prosesau. Mae'r canlynol ymysg y casgliadau a gyrhaeddwyd:

- Teimlodd cwsmeriaid y gallai dyraniadau fod yn fwy tryloyw a nododd rhai fod y cynigion a dulliau gwahanol (tai pobl hŷn, gosodiadau lleol etc.) yn ddryslyd.
- Mae cwmpas i ostwng jargon a rhesymoli prosesau.
- Ar sail adborth gan gwsmeriaid, maent eisiau symud i gywain gwybodaeth sylfaenol yn y lle cyntaf, ac wedyn manylion pellach yn y cam dyrannu.
- Maent yn ystyried p'un a allent gael un broses ar gyfer pob math o gartref a gynigir, gan gynnwys rhent canolradd.
- Maent yn gofyn i bobl ymgysylltu â nhw'n ddigidol ond wedyn dydyn nhw ddim yn ymateb yn yr un ffordd, felly maent yn ymchwilio i ddefnyddio negeseuon testun wedi'u hawtomeiddio etc i ddarparu adborth yn gynt. Er enghraifft, i ddweud bod cais wedi cael ei dderbyn.
- Maent yn ystyried symud pob rhan o'r broses i gael eu cyflawni'n ddigidol - ar hyn o bryd mae rhai rhannau'n gofyn am argraffu ffurflenni.
- Er y teimla'r sefydliad ei fod yn glir bod angen i bobl wneud cynnig, doedd rhai ymatebwyr ddim yn gwybod hyn.
- Ar hyn o bryd mae'r sefydliad yn derbyn tua 200 o alwadau bob wythnos gan bobl sydd wedi anghofio eu rhif cynnig. Trwy awtomeiddio hyn, maent yn gobeithio

rhyddhau amser staff i weithio gydag unrhyw un sydd angen mwy o gefnogaeth gyda'r broses ymgeisio.

- Maent yn ymchwilio i gyflwyno nodwedd sgwrs fyw a allai fod yn fwy hygyrch i bobl ifanc a phobl nad Saesneg mo'u hiaith gyntaf.
- Maent eisiau gwneud y prosesau cwynion ac apeliadau'n fwy tryloyw.
- Y nod yw i'r dull newydd fedru darparu ar gyfer Tai yn Gyntaf a mentrau ailgartrefu cyflym.

Dod â'r cyfan ynghyd

I gyrraedd sefyllfa lle mae systemau dyraniadau mor effeithiol â phosib ac wedi'u hintegreiddio i feysydd sy'n ymestyn ar draws mwy nag un polisi - yn benodol iechyd cyhoeddus - mae angen edrych ar sut rydym yn cynnig ac yn rheoli cartrefi trwy ddull systemau cyfan. Ni all dyraniadau weithredu mewn seilo a dylai polisiau a phenderfyniadau o gwmpas anghenion tai edrych ar y cyd-gysylltiadau rhwng ble yr adeiledir tai cymdeithasol newydd a sut mae'r Grant Tai Cymdeithasol (GTC) yn cael ei ddyrannu.

Amlygodd un ALL a gymerodd ran yn yr ymchwil fod rhai ardaloedd yn y sir yr oedd ganddynt alw difrifol o isel ac ni allai'r system ddyrannu bresennol ddarparu ar gyfer yr ardaloedd hyn. Roedd gan yr awdurdod restr aros gymharol fach a chanran uchel o dai cymdeithasol presennol. Ar y llaw arall, mae rhai ardaloedd yng Nghymru sy'n profi galw digynsail, ac eto ni adlewyrchir hyn ym maint y GTC a ddyfernir i ALL. Ein pryder yw nad yw'r cyfrifiad ar gyfer dyrannu GTC yn adlewyrchu lefel a natur yr angen am dai ac y gallai hyn gyfrannu at bwysau ar systemau dyrannu.

Er na ymchwiliwyd i'r maes hwn yn fanwl, awgrymir y dylid ystyried a dadansoddi hyn yn fanylach.



4. Beth nesaf?

Mae Covid-19 wedi taflu goleuni pendant ar oblygiadau iechyd system tai sydd wedi arwain at sefyllfa lle mae gennym bobl yn byw mewn cyflyrau anniogel (gan gynnwys cysgu allan, mynd o un sofffa i'r llall a thai gorlawn.) Mae cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a thai i ddarparu cartrefi diogel a phriodol yn bwysig nid yn unig o ran eu llesiant nhw ond iechyd y wlad gyfan.

Argymhellion

1. Rydym yn argymhell adolygiad cyffredinol o sut y dyrennir tai rhent cymdeithasol yng ngoleuni gwersi a ddysgwyd o'r pandemig fel mater o frys. Mae angen i'r adolygiad hwn ystyried effaith tai diffygiol ar iechyd a llesiant ar draws pob daliadaeth o safbwynt cyfraniad tai at iechyd cyhoeddus.
2. Dylai'r adolygiad gael ei arwain gan Lywodraeth Cymru ac mae angen iddo ennyn diddordeb dinasyddion, llywodraeth leol, sefydliadau tai a digartrefedd, cyrff iechyd yn ogystal â chyrrff ac asiantaethau perthnasol eraill.
3. Mae angen dull mwy cyson ar draws Cymru o hysbysebu a chael mynediad i dai rhent cymdeithasol er mwyn ei wneud yn symlach ac yn decach i ddinasyddion ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru.
4. Mae angen cywain data yn gyson ac fel rhan o strategaeth hir dymor i sicrhau y gallwn fod yn hyderus ein bod yn diwallu anghenion pobl y mae eu hiechyd a llesiant mewn perygl fwyaf o ganlyniad i gartref diffygiol ar draws Cymru. Rydym yn cefnogi argymhelliad y Grŵp Gweithredu Digartrefedd mewn perthynas â chofnodi data'n barhaus¹.
5. Nawr yw'r amser i ailffocysu'r Grant Tai Cymdeithasol er mwyn iddo gael ei ddyrannu lle ceir tystiolaeth o angen difrifol o ran tai a ble y caiff cartrefi eu dyrannu i bobl sydd mewn angen difrifol o ran tai neu mewn perygl cynyddol yn wyneb pandemigau yn y dyfodol oherwydd eu sefyllfa tai.
6. Mae angen i ni weld dyraniadau tai rhent cymdeithasol o fewn dull "un system tai" ehangach. Mae angen cefnogi'r ystod ehangach o opsiynau tai a ddatblygir gan Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai megis modelau perchen ar gartref am gost isel, llety rhent canolradd, ymddiriedolaethau tir, cydweithfeydd tai etc. i liniaru'r pwysai ar dai rhent cymdeithasol ac i alluogi'r sector tai i ddiwallu ystod ehangach o ddyheadau o ran tai.
7. Mae angen moderneiddio prosesau dyrannu fel y gall pobl gael gwybod am gartrefi a chael mynediad atynt heb gyswllt personol, ar-lein gan ddefnyddio ffôn symudol.

¹https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/homelessness-action-group-report-march-2020_0.pdf



Diolch i...

Yn ychwanegol at yr awdurdodau lleol a gwblhaodd ein holiaduron, hoffem ddiolch i'r sefydliadau ac unigolion a ganlyn am eu mewnbwn i'r gwaith hwn.

Grŵp Ateb

Cyngor Sir Ceredigion

Clare Budden

Cartrefi Cymunedol Cymru

Cymorth Cymru

Tai Sir Fynwy

Shelter Cymru

Tai Pawb

Tamsin Stirling

Cymdeithas Tai Unedig Cymru

Cyngor Bro Morgannwg

Victoria Slade

Llywodraeth Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam





Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Cwrdd â'r tîm:



Catherine May

rheolwr Tyfu Tai Cymru, CIH Cymru

E: catherine.may@cih.org T: 02920 741138



Matt Kennedy

rheolwr polisi a materion cyhoeddus, CIH Cymru

E: matthew.kennedy@cih.org T: 02920 741137



Matt Dicks

cyfarwyddwr, CIH Cymru

E: matthew.dicks@cih.org T: 02920 741131



Sharon Dean

cydlynnydd cefnogi cwsmeriaid, CIH Cymru

E: sharon.dean@cih.org T: 02920 741131

Tyfu Tai Cymru -
Gan Fod Tai'n Bwysig